


ChatGPT ar gyfer cynllunio a pharatoi gwersi

Bu gwaith ymchwil diweddar gan NFER ac EEF, a ariennir gan Sefydliad HG, yn mesur sut y gall defnyddio ChatGPT i baratoi gwersi effeithio ar yr amser a dreulir yn paratoi gwersi ac ansawdd adnoddau. Roedd yr arbrawf yn cynnwys **259 o athrawon gwyddoniaeth Blwyddyn 7/8 o 68 o ysgolion uwchradd**.

Beth oedd ein canfyddiadau?

Daeth ein gwaith ymchwil i'r casgliad bod athrawon a oedd yn defnyddio ChatGPT yn treulio **31% yn llai o amser yn cynllunio gwersi**.



Ni welwyd unrhyw dystiolaeth o wahaniaeth yn ansawdd yr adnoddau rhwng y ddau grŵp.

Sut oedd athrawon yn defnyddio ChatGPT?

Defnyddiodd athrawon yn yr astudiaeth ChatGPT yn ddetholus i:

- ✓ Greu **cwestiynau a chwisiau**
- ✓ Teilwra adnoddau i **anghenion eu dosbarthiadau**
- ✓ Canfod **syniadau newydd am weithgareddau**
- ✓ **Aralleirio esboniadau** i sicrhau eglurder

Ystyriaethau ymarferol defnyddio ChatGPT wrth baratoi gwersi



Mynediad i gymorth ar gyfer defnyddio adnoddau deallusrwydd artiffisial

Gall llawer o adnoddau gefnogi'r defnydd o ChatGPT, gan gynnwys canllaw Bain & Company a ddefnyddiwyd yn yr arbrawf hwn, sy'n cynnwys enghreifftiau ar draws gwahanol bynciau a chyfnodau allweddol.



Defnyddio ChatGPT yn ofalus

Gall hyd yn oed ei ddefnyddio ar raddfa fach, fel creu cwestiynau, arbed amser. Bydd adnoddau eraill ac arbenigedd athrawon yn dal i fod yn hanfodol wrth baratoi gwersi.



Teilwra ChatGPT i'ch gofynion

Dechreuwch gyda champau bychain: defnyddiwch ar gyfer syniadau am weithgareddau neu greu cwisiau. Os nad yw'r allbwn yn iawn, gallai mireinio awgrymiadau helpu, megis addasu lefel y manylder, oedran darllen neu ffocws.



Rhannu a chydweithio

Rhannwch yr hyn yr ydych yn ei ddysgu a thrafodwch yr hyn sy'n gweithio a'r hyn sy'n llai llwyddiannus, gan gynnwys awgrymiadau da.



Ehangu'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial y tu hwnt i'r astudiaeth hon

Er bod yr astudiaeth hon wedi canolbwyntio ar gynllunio gwersi gwyddoniaeth, gallai ChatGPT gefnogi cynllunio cwricwlwm ehangach.



Cefnogi athrawon gyda deallusrwydd artiffisial

Efallai y bydd angen cymorth ar athrawon i ddysgu sut i ddefnyddio adnoddau deallusrwydd artiffisial, yn enwedig y rhai hynny a allai fod yn llai hyderus gyda thechnoleg neu eu gwybodaeth am y pwnc.

Rhagor o fanylion



I ddarllen ein crynodeb llawn o'r gwaith ymchwil hwn i ysgolion, neu'r adroddiad llawn, ewch i nfer.ac.uk/classroom